## GWYBODAETH I DDRINGWYR

Mae clogwyni Sir Benfro ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro o bwys rhyngwladol ar gyfer adar sy'n nythu ar y clogwyni ac maent yn cynnig rhai o'r cyfleoedd gorau yn y wlad ar gyfer dringo clogwyni ger y môr. Yn y daflen hon ceir manylion am y cyfyngiadau dringo tymhorol y cytunwyd arnynt i warchod mannau nythu a bwydo. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad y cytrefi o adar y môr a'r brain coesgoch, hebogiaid tramor a chigfrain sy'n nythu yma. Mae'r ardaloedd dringo o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a hefyd yn cynnwys Ardaloedd Gwarchod Arbennig Ewropeaidd. Gweler y '*Green Guide*' i ddringo sydd ar wefan Cyngor Mynydda Prydain.

## MAESTIR Y DWYRAIN, CASTELLMARTIN (Tir y WA)

- **EDRYCHWCH AR YR HYSBYSFYRDDAU BOB DYDD CYN DECHRAU DRINGO (gweler y map).** Bydd y rhain yn dangos y newidiadau diweddaraf yn ystod y tymor.
- DIM OND PAN NA FYDD TANIO AR Y MAESTIR Y GELLIR CAEL MYNEDIAD - edrychwch yn y papurau newydd lleol neu ffoniwch y llinell wybodaeth 24awr. Ffôn 01646 662367
- PEIDIWCH Â DRINGO RHWNG YR ARWYDDION COCH yn ystod adegau o gyfyngiad.
- COFIWCH OSGOI MANNAU O DYFIANT - mae'r blodau ar y clogwyni yn cynnwys rhai o rywogaethau mwyaf prin y wlad.
- PEIDIWCH Â CHYSYLLTU BELAIAU I EIDDO'R WEINYDDIAETH AMDDIFFYN na rhoi unrhyw bolion newydd oherwydd y risg o ordnans heb ei ffrwydro ac am resymau cadwraethol..
- NI CHANIATEIR DRINGO CLOGWYN Y CAPEL AR UNRHYW ADEG (Diogelwch y cyhoedd).

## MAESTIR Y GORLLEWIN, CASTELLMARTIN (Tir y WA)

Mynediad trwy ganiatâd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn unig. Mae angen i ddringwyr fynychu briffio a sicrhau trwydded. Am wybodaeth bellach a'r dyddiadau briffio a fyddech gystal, os gwelwch yn dda, â chysylltu â'r CMP neu Barcmon Castellmartin.

## PENTIR LYDSTEP (Mother Carey's Kitchen)

Mae cyfyngiad ar waith o fewn y Simnai rhwng 1 Mawrth a 1 Awst. Peidiwch â dringo'r llwybrau canlynol: 'Karma Waters' i 'Star Gate' a hefyd 'Narrow Carriage', 'Mars Bar' a 'Brittle Nerve'. Mae cyfyngiad hefyd yn weithredol yn Skrinkle Haven rhwng 1 Mawrth a 1 Awst, 'Gorak' i 'Sweet Dreams' yn gynhwysol.

## GOGLEDD SIR BENFRO

- Needle Rock, Abergwaun - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Cyfyngiad Llech Dafad - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Cyfyngiad Penbwchdy - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Abercastell - clogwyni Ynys Deullyn - Fe gyfyngir ar y safle os bydd adar yn nythu yma. Edrychwch am arwyddion ar ben y clogwyni.
- Mur Cenhinen - fe gyfyngir ar y safle os bydd adar yn nythu yma. Edrychwch ar Gronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol CMP.
- Ogof Mrs Morgan - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst.
- Dinas Fach (rhwng Solfach a Niwgwl) - 1 Mawrth hyd nes 1 Awst .

A wnewch chi ddweud wrth Gynrychiolydd Mynediad y CMP steveqpembs@googlemail.com os ydych yn gweld hebog tramor neu frân goesgoch nythod ar Ynys Deullyn neu Pemaen Dewi.

## Y CYFYNGIADAU DRINGO TYMHOROL Y CYNTUNWYD ARNYNT

Cytunwyd ar y cyfyngiadau hyn rhwng CMP, y Clwb Dringo Sir Benfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses o gyd-gysylltu rhwng yr holl gyrff perthnasol. Gofynnir i'r holl ddringwyr gadw at y cyfyngiadau hyn. Dangosir ar y map ar ba adeg o'r flwyddyn y mae'r cyfyngiadau mewn grym. Mae ogofâu ar arfordir Sir Benfro yn cynnwys bywyd gwyllt, daeareg ac archaeoleg prin a sensitif. Dylid osgoi mynd i mewn iddynt.

## GWYBODAETH BELLACH

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch y cyfyngiadau dringo cytûn oddi wrth:

- Cyngor Mynydda Prydain - Ffôn 0161 445 6111 access@thebmc.co.uk www.thebmc.co.uk www.thebmc.co.uk/modules/RAD
- Uwch Reolwr Gwarchodfa, Cyfoeth Naturiol Cymru - Ffôn 01646 661368 paul.culyer@naturalresourceswales.gov.uk
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Sir Benfro - Ffôn 01646 623110 stackpole@nationaltrust.org.uk
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Ffôn 01646 624800
- Gwersyll y WA, Castellmartin, Swyddfa'r Maestir (oriau gwaith) - Ffôn 01646 662306
- Parcmon Castellmartin - Ffôn 07866 771188 e-bost: climbing@pembrokeshirecoast.wales
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro www.pembrokeshireoutdoors.org.uk

# CYFYNGIADAU DRINGO CYTÛN Sir Benfro 2026



**MAE'R HYSBYSFYRDDAU YN RHOI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF DYLID EU DARLLEN BOB DYDD CYN DECHRAU DRINGO**

- Edrychwch am rybuddion a marcwyr dringo ar ben y clogwyni
- **Mewn argyfwng cysylltwch â Gwyliwr y Glannau - Ffôn 999**
- WA, Castellmartin, gwybodaeth cofnodedig am amserau tanio ar Faestiroedd y Dwyrain - Ffôn 01646 662367

**ARWYDDION AR Y CLOGWYNI** (POTIAU BLODAU CONCRID, COCH)

Nodir y cyfyngiadau dringo gan arwyddion ar frigau'r clogwyni sydd â rhifau arnynt. Mae'r rhifau yn cyfateb i'r rhifau a ddangosir gerllaw'r cyfyngiadau ar y map. Peidiwch â dringo rhwng marcwyr sy'n dangos yr un rhif. Dengys saethau ar yr arwyddion i ba gyfeiriad y mae'r cyfyngiadau'n gymwys.





**CYFYNGIADAU YN ARDAL 1**
Y Bont Werdd / Y Grochon
1 Mawrth - 1 Awst
Staciau Heligog
1 Mawrth - 1 Awst

**CYFYNGIADAU YN ARDALOEDD 2 - 11**
1 Mawrth - 1 Awst

**ARDAL 12**
DIM DRINGO AR UNRHYW ADEG

**CYFYNGIADAU YN ARDALOEDD 13 - 15**
1 Mawrth - 1 Awst

- **Ffôn mewn argyfwng**
- **Cyfyngiadau dringo**
- **Meysydd parcio ceir**
- **Toiledau**
- **Ffôn**
- **Radar**
- **Gwylfâu**
- **Baeau ble mae morloi'n magu**




**CYFYNGIADAU YN ARDALOEDD 16a - 18**
1 Mawrth - 1 Awst

FFONAU ARGYFWNG GER Y TOILEDAU YN BROAD HAVEN A CHEI YSTAGBWLL

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

# CYFYNGIADAU DRINGO CYTÛN

## Staciau'r Heligog i Bentir St Gofan

## 2026

**COD YMDDYGIAD YNGHYLCH MORLOI**

Osgowch bob cildraeth, ogof a bae lle mae morloi neu eu lloi bach rhwng **1 Awst a 30 Tachwedd**